Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Wrecsam
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580
Ffacs: 01978 269589

*Ysgol Bro Alun*
*Delamere Road*
*Wrexham*
*LL11 4NG*
*Tel: 01978 269580*
*Fax: 01978 269589*

# YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA
Pennaeth *Head Teacher*

*E-bost*/E-mail: **mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk**

## Partïon Nadolig! Dyddiadau newydd!

Ar ddiwedd blwyddyn wahanol iawn eleni rydym yn edrych ymlaen at gael hwyl a sbri yn ein partïon Nadolig yn ystod wythnos olaf y tymor. Mae croeso i'r plant ddod i'r ysgol mewn dillad parti ar ddiwrnod eu parti. Dyma pryd fydd y partïon yn cael eu cynnal :

**Dydd Llun, Rhagfyr 14eg**
Robin Goch, Blwyddyn 5, Blwyddyn 4

**Dydd Mawrth, Rhagfyr 15fed**
Pioden, Alarch, Drudwen (does dim angen gwisg ymarfer corff)

**Dydd Mercher, Rhagfyr 16eg**
BL3, Dryw, Bran (does dim angen gwisg ymarfer corff)

## Elusen Nadolig

Rydym fel arfer yn codi arian at elusen arbennig drwy werthu tocynnau i'r cyngherddau Nadolig. Er na fydd cyngherddau Nadolig yn cael eu cynnal yn yr ysgol eleni, mae'r plant yn brysur yn paratoi fideo Nadoligaidd arbennig i chi fwynhau adref a byddai'n hyfryd gallu cefnogi elusen arbennig eto eleni. Mae'r Cyngor Ysgol wedi trafod a maent yn awyddus i brynu tegannau ac adnoddau newydd i'r ward plant yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, lle arbennig iawn yma yn ein cymuned leol. Os hoffech gyfrannu at yr achos arbennig yma anfonwch eich cyfraniad i'r ysgol mewn amlen ar ddiwrnod parti eich plentyn os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr,

Miss Ffion Hughes